Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Ffynnon Taf

**Cardiff Road**
**Ffynnon Taf**
**Rhondda Cynon Taf**
**CF15 7PR**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant**

**yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Ffynnon Taf

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Ffynnon Taf |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Categori'r ysgol yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 170 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 134 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 21 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 22.9%) | 13.1% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 11.1%) | 11.9% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | * |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/01/2019 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 22/07/2017 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 25/11/2024 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Crynodeb

Mae Ysgol Gynradd Ffynnon Taf yn darparu amgylchedd diogel a gofalgar i ddisgyblion ddysgu a ffynnu. Mae lles y disgyblion yn bwysig i bob un o'r staff ac maent yn gweithio gyda'i gilydd yn llwyddiannus i sicrhau perthnasoedd cryf ac ethos o ofal, dealltwriaeth a pharch. Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Maent yn ymddwyn yn dda ac yn foesgar a chwrtais gyda'i gilydd, staff ac ymwelwyr.

Mae arweinwyr a staff yn gosod safonau proffesiynol uchel trwy eu gwaith a'r ymddygiadau y maent yn eu modelu. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ar gyfer cynnydd a lles disgyblion. Mae'r addysgu yn effeithiol ym mhob dosbarth, ac fe gaiff disgyblion eu hannog i fod yn annibynnol yn eu dysgu o oedran cynnar. Erbyn iddynt adael yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau dysgu'n annibynnol buddiol ac yn deall eu hunain yn dda fel dysgwyr. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, yn cynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd da dros gyfnod.

Mae'r cwricwlwm yn gyfoethog ac yn hynod ddifyr. Mae hyn yn gryfder yn yr ysgol. Cynigir ystod eang o brofiadau dysgu ysgogol i ddisgyblion, sy'n eu helpu i ennill medrau gwerthfawr a datblygu gwybodaeth ddefnyddiol. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn ymgysylltu'n frwdfrydig â'u dysgu. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso'u medrau llythrennedd, rhifedd a digidol mewn gwahanol gyd-destunau ac yn datblygu'r gallu i gydweithio'n dda â disgyblion eraill neu ar eu pen eu hunain.

Ym mhob dosbarth, mae cyfleoedd helaeth i ddisgyblion ddatblygu eu medrau creadigol. Mae athrawon yn darparu ystod eang o gyfleoedd i ddisgyblion werthuso gwaith creadigol pobl eraill, fel arlunwyr, cerddorion a dylunwyr. Mae hyn yn helpu disgyblion i werthfawrogi gwaith disgyblion eraill, datblygu eu medrau creadigol eu hunain yn llwyddiannus, a myfyrio ar ansawdd eu gwaith creadigol, a'i wella.

Mae arweinwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i gael golwg glir ar y cryfderau a'r meysydd i'w datblygu yn yr ysgol. Maent yn nodi camau nesaf yr ysgol i wella ac wedi llwyddo i wella'r ddarpariaeth mewn nifer o feysydd allweddol dros gyfnod. Mae gan yr ysgol adnoddau helaeth ac mae arweinwyr yn rheoli cyllideb yr ysgol yn effeithlon. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr bob amser yn gwerthuso effaith cyllid grant yn ddigon da.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud un argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella, sef:

A1 Dylai'r ysgol barhau â'i thaith wella

## Beth sy’n digwydd nesaf

Nid oes unrhyw argymhellion penodol yn gysylltiedig â’r arolygiad hwn.

## Prif werthusiad

Mae arweinwyr a staff yn Ysgol Gynradd Ffynnon Taf yn gweithio gyda’i gilydd yn llwyddiannus i greu amgylchedd gofalgar ac anogol, lle mae disgyblion yn dysgu medrau gwerthfawr sy’n eu datblygu i fod yn ddysgwyr hyderus ac annibynnol.

Rhoddir blaenoriaeth uchel i les disgyblion yn yr ysgol. Mae staff yn gweithio’n galed i ddatblygu perthnasoedd cryf, parchus ac empathig. Mae bron pob un o’r disgyblion yn teimlo’n ddiogel ac yn hapus yn yr ysgol, ac yn gwybod ble i fynd am gymorth, os oes ei angen. Mae bron pob un o’r disgyblion yn ymddwyn yn dda mewn ystafelloedd dosbarth ac ym mhob ardal yn yr ysgol. Maent yn foesgar a chwrtais gyda’i gilydd ac ymwelwyr. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn chwarae rhan weithredol ym mywyd yr ysgol, maent yn gwybod y gwrandewir ar eu barn, a bod ganddynt ddylanwad priodol dros benderfyniadau sy’n effeithio arnyn nhw.

Mae gan athrawon ac arweinwyr ddisgwyliadau uchel ar gyfer cynnydd disgyblion ac yn datblygu’r amgylchedd dysgu a’u dulliau addysgu fel bod disgyblion yn cymryd cyfrifoldeb cynyddol am eu dysgu. O oedran cynnar, caiff disgyblion eu hannog i fod yn annibynnol, ac maent yn archwilio, yn dewis deunyddiau, yn datrys problemau ac yn gwneud dewisiadau yn eu tasgau dysgu. Mae’r disgyblion hynaf yn datblygu’n dda i fod yn ddysgwyr annibynnol ac wedi’u cymell, sy’n gwneud gwerthusiadau beirniadol ac yn dewis yr adnoddau mwyaf priodol i’w helpu i ddysgu. Er enghraifft, wrth ddysgu cysyniad mathemategol newydd, maent yn manteisio’n annibynnol ar sesiynau tiwtorial ar-lein sy’n cefnogi eu dealltwriaeth.

Mae ansawdd yr addysgu yn gryf, ac fe gaiff hyn effaith gadarnhaol ar y cynnydd a wna disgyblion. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd da o’u mannau cychwyn. Mae athrawon yn darparu lefel gyson ac effeithiol o adborth, cymorth a her. Mae’r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio holi effeithiol i wirio dealltwriaeth a dyfnhau dysgu. Mae athrawon yn defnyddio ystod o wybodaeth asesu i gynllunio gweithgareddau dysgu sy’n gweddu i alluoedd disgyblion yn llwyddiannus. Caiff canllawiau ‘Cofio’ defnyddiol eu cynnwys ar gyfer pob tasg ac mae hyn yn helpu disgyblion i ddeall beth mae angen iddynt ei wneud er mwyn llwyddo. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion adolygu a myfyrio ar eu dysgu eu hunain a dysgu eu cyfoedion. Mae hyn yn eu helpu i wybod pa mor dda y maent yn gwneud a beth yw eu camau nesaf mewn dysgu. Defnyddir staff cymorth yn effeithiol, ac maent yn cyfrannu’n ystyrlon at ddysgu a datblygiad disgyblion.

**Ciplun 1: Datblygu cwricwlwm cyfoethog a hynod ddifyr sy’n annog disgyblion i gymhwyso’u medrau ar draws meysydd y cwricwlwm**

Mae’r ymagwedd ysgol gyfan at y cwricwlwm yn eithriadol o dda ac yn darparu cyfleoedd cyfoethog a hynod ddifyr i ddisgyblion gymryd rhan mewn profiadau dysgu

ystyrlon a dilys. Mae'r profiadau hyn yn adeiladu ar fedrau disgyblion yn llwyddiannus dros gyfnod ac yn galluogi disgyblion i drosglwyddo eu medrau yn naturiol o un maes o'r cwricwlwm i un arall.

Ar draws y cwricwlwm, mae disgyblion yn datblygu gwybodaeth dda am eu hardal, dealltwriaeth gadarn o faterion byd-eang a'r medrau i gymryd rhan fel dinasyddion gweithgar mewn byd amrywiol. Er enghraifft, mae disgyblion iau yn archwilio problem yn ymwneud â lefelau dŵr yn codi pan maent yn derbyn llythyr gan Siôn Corn am broblem capanau rhew yn toddi. Mae disgyblion hŷn yn cydweithio i ystyried effaith ffasiwn cyflym ar bobl a lleoedd ac yn dod o hyd i ffyrdd i eirioli dros newid.

**Ciplun 2: Datblygu medrau disgyblion yn y celfyddydau mynegiannol**

Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer datblygu medrau disgyblion yn y celfyddydau mynegiannol yn gryfder. Ar draws yr ysgol, ceir cyfleoedd ystyrlon i ddisgyblion ddatblygu eu medrau mewn cyd-destunau creadigol. Mae disgyblion yn cael profiad o amrywiaeth eang o gyfryngau ac yn defnyddio hyn i archwilio dysgu a datblygu medrau ar lefel uchel. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn siarad yn glir am y cynnydd a wnânt yn datblygu eu medrau yn y celfyddydau mynegiannol.

Ar draws y cwricwlwm, mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd ystyrlon a pherthnasol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau personol a chymdeithasol a dysgu am berthnasoedd iach a ffyrdd iach o fyw. Ceir cyfleoedd cynlluniedig i ddisgyblion ddysgu am fyd gwaith a chodi eu dyheadau ar gyfer y dyfodol. Ym mhob dosbarth, mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth ysbrydol, foesol, gymdeithasol a diwylliannol.

Mae medrau llythrennedd, rhifedd a digidol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda dros gyfnod. Erbyn iddynt adael yr ysgol, mae llawer ohonynt yn siaradwyr hyderus a huawdl. Mae'r ysgol yn darparu ymagwedd strwythuredig a chynhwysfawr at addysgu gwahanol ffurfiau ysgrifennu, sy'n sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau ysgrifennu effeithiol dros gyfnod, ac yn ysgrifennu'n effeithiol at wahanol ddibenion. Mae'r ysgol yn creu diwylliant darllen cryf, a'r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn darllen testunau'n rhugl a gyda mwynhad. Mae ymagwedd gyson yr ysgol at ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth fathemategol disgyblion yn sicrhau bod bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn dda i ddatrys problemau dilys. Mae'r disgyblion hynaf yn datblygu medrau digidol cryf ac yn defnyddio ystod o ddyfeisiau a rhaglenni â hyder, er enghraifft wrth ddefnyddio technoleg i greu cerddoriaeth ddigidol ar gyfer llwyfan eu sioe ffasiwn cynaliadwy. Mae gan bron bob un o'r disgyblion ymwybyddiaeth dda o bwysigrwydd diogelwch ar y rhyngrwyd. Ceir darpariaeth effeithiol ar gyfer addysgu a dysgu yn Gymraeg, sy'n sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn datblygu eu medrau cyfathrebu yn Gymraeg.

Ceir darpariaeth gref ar gyfer disgyblion ag ADY. Ceir cysylltiadau cryf ac effeithiol ag asiantaethau allanol, sy'n cynnig darpariaeth arbenigol werthfawr i gefnogi anghenion emosiynol a meddygol, iechyd a dysgu disgyblion yn dda iawn.

Mae arweinwyr yn mynd i'r afael â'r rhan fwyaf o flaenoriaethau cenedlaethol yn dda ac yn annog pob un o'r staff i weithio gyda'i gilydd i rannu eu harbenigedd wrth

ddatblygu agweddau ar ddarpariaeth yr ysgol, er enghraifft wrth ymateb i ddiwygio'r cwricwlwm. Mae arweinwyr a staff yn gwerthuso perfformiad yr ysgol ar y cyd ac yn nodi'r camau nesaf yn ei gwelliant yn gywir.

At ei gilydd, mae gan yr ysgol berthnasoedd da â rhieni a gofalwyr, sy'n gwerthfawrogi ymateb yr ysgol i unigoliaeth eu plant a'r ffordd y mae'r ysgol yn eu paratoi i symud yn hyderus o un sector ysgol i un arall. Mae gwaith partneriaeth buddiol gydag ysgolion lleol eraill yn helpu cefnogi prosesau gwella'r ysgol.

Mae arweinwyr yn monitro cyllid yr ysgol ac yn dyrannu cyllid yn briodol, er enghraifft i gefnogi gwelliant yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr bob amser yn gwerthuso'r defnydd o gyllid grant yn ddigon penodol, er enghraifft wrth werthuso effaith cyllid i leihau rhwystrau rhag dysgu ar gyfer y rhai sy'n cael eu heffeithio gan dlodi.

Mae llywodraethwyr yn gefnogol a gwybodus. Maent yn herio'r ysgol ac yn ei dwyn i gyfrif yn briodol.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn peri pryder.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, yn cynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â’r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae’r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  30/01/2025